

HYSBYSIAD O SEDD WAG ACHLYSUROL

CYNGOR CYMUNED YNYSYBWL A CHOED-Y-CWM

Ward ISAF

RHODDIR RHYBUDD yn unol ag adran 87 (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod SWYDD WAG ACHLYSUROL wedi digwydd yn aelodaeth Cyngor Cymuned Ynysybwl a Choed-Y-Cwm ar gyfer Ward ISAF.

Os na fydd Etholiad yn cael ei hawlio, fel y nodir isod, bydd yn ofynnol i'r Cyngor lenwi'r sedd wag achlysurol trwy gyfethol yn unol ag Adran 116 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Bydd Etholiad yn cael ei gynnal os bydd DEG o Etholwyr Llywodraeth Leol y Ward yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r:

Swyddog Priodol, Yr Hen Lys, Stryd Y Lllys, Pontypridd CF37 1JW, neu e-bost gwasanaethauetholiadau@rctcbc.gov.uk, yn gofyn am Etholiad. Dylech nodi fod staff ddim bob amser yn y swyddfa yma ar hyn o bryd.

Bydd rhaid i hysbysiad o'r fath gael ei gyflwyno heb fod yn hwyrach na 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad hwn. Cyfrifir yr amser yn unol â Rheol 2 yn y rheoliadau uchod, sy'n diystyru Gwyliau Banc, dydd Sadwrn a dydd Sul.

Os gofynnir am etholiad, mae Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i bleidlais i lenwi'r swydd wag gael ei chynnal **rhwng 1 Chwefror a 16 Ebrill 2021** (cynhwysol).

Os na fydd etholiad yn cael ei hawlio, dylai person cymwys sydd â diddordeb mewn cyfethol roi gwybod i'r isod.

DYDDIEDIG : 7 Medi 2020

Paula Evans
Clerc, Cyngor Cymuned Ynysybwl a Choed-Y-Cwm
63 High Street
Pontypridd
CF37 3EE